Cyngor Tref Aberteifi :-: Cardigan Town Council

Cofnodion yr is-bwyllgorau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, nos Fawrth, 20 Mawrth 2018 am 6.00yh.

Minutes of the sub-committees held at the 36 Pendre Conference Room on Tuesday, 20 March 2018 at 6.00pm.

Presennol/*Present*—**Y Cynghorwyr**/Councillors John Adams-Lewis *(***yn y gadair***/in the chair),* Clive Davies, Graham Evans, Marilyn Farmer, Richard Jones *(arrived/cyrraedd 6.30pm)*, Wyn Jones, Siân Maehrlein, Catrin Miles, Steffan Morgan, Yvonne O'Neill.

Ymddiheuriadau/*Apologies*—Y Cyngh./Cllrs Elaine Evans, Debra Griffiths

Croeso'r Cadeirydd / Chair's welcome

Croesawodd y Dirprwy Faer, y Cyng. John Adams-Lewis, bawb i'r cyfarfod. Cyfeiriodd at y newyddion trist iawn o farwolaeth Kiara Moore, merch fach dwy oed, mewn damwain erchyll pan syrthiodd y modur yr oedd ynddo i'r afon ger y Strand; cytunwyd anfon carden o gydymdeimlad at y rhieni. Ar nodyn gwahanol, llongyfarchwyd y Cynghorwyr Graham Evans a Catrin Miles ar uniad eu priodas ar 14 Mawrth a llongyfarchwyd y Cyng. Debra Griffiths a'i phriod, Cerdin, ar ddathlu eu priodas arian.

The Deputy Mayor, Cllr John Adams-Lewis, welcomed everyone to the meeting. He referred to the tragic news received of little Kiara Moore who died following an accident at the Strand slipway; the clerk was asked to forward a sympathy card to the bereaved parents from the council. On a lighter note, congratulations were extended to Cllrs Graham Evans and Catrin Miles following their recent marriage. Likewise, Cllr Debra Griffiths and her husband, Cerdin, were congratulated on celebrating their silver wedding anniversary.

Cynllunio / Planning

(Mae gan yr is-bwyllgorau bwerau dirprwyol i ddanfon sylwadau ar ran y cyngor at Gyngor Sir Ceredigion. Sub-committees have delegated powers to forward council observations to Ceredigion County Council.)

Rhif y Cais / Application No.	*Cyfeiriad /* Address	*Y Bwriad / Proposal*	*Sylwadau / Observations*
A180243	Crwst, Priory Street	*Newid amod 4 o'r cais cynllunio – A170920 (oriau agor).* Change condition 4 of planning permission – A170920 (change of opening hours)	*Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad.* The council has no objection.
A180258	Brynteg, Heol y Felin Newydd	*Estyniad a tho pitch i flaenllun yr annedd.* Extension and pitched roof to front elevation.	*Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.* The council supports the application.

Datgan diddordeb / Declaration of interest:
Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis *(materion cynllunio/all planning matters)*
Y Cyng. / Cllr Wyn Jones (A180243)

Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5th Playing Field

(a) **Prydles Clwb Rygbi Aberteifi: Trafod llythyr Mr John Dyer, dyddiedig 21 Chwefror 2018.**
Cardigan RFC lease: Discussion of the letter forwarded by Mr John Dyer on 21 February.
Diweddariad dderbyniwyd 20/3/18: Prydles Clwb Rygbi Aberteifi.
Update received 20/3/18: Cardigan RFC lease.
Dosbarthwyd yr ohebiaeth diweddaraf i'r gweithgor; <u>awgrymwyd</u> bod yr aelodau yn adrodd yn ôl i'r cyngor.

The latest correspondence was distributed to the working group; it was recommended that members report back to the next council meeting.

(b) **D. E. Owen a'i Fab: Diweddariad a phrisiau torri'r borfa ar Gae Chwarae Brenin Siôr 5ed.**
D. E. Owen & Son: Update and quotation for the cutting of the King George 5th Playing Field grass.
Dosbarthwyd yr ohebiaeth i swyddogion y Pwyllgor Ymgynghorol ac i swyddog y Clwb Pêl-droed. Awgrymwyd eu bod yn cysylltu gyda'r Bachan Deche er mwyn symud y cytundeb ymlaen.
The correspondence was distributed to officials of the Advisory Committee and an officer of the Football Club. It was recommended that they liaise with the Handyperson to move the agreement forward.

Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

(a) **Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru: Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Ceredigion – Adroddiad Cynigion Drafft.**
Dywedodd y Cyng. Clive Davies bod yr awgrym diweddaraf o du'r cyngor sir yn mynegi, oherwydd nifer yr etholwyr, y dylai wardiau Rhyd-y-fuwch a Teifi uno fel un ward a bod ward Mwldan yn aros fel ag y mae ar hyn o bryd; byddai hyn yn gadael Tref Aberteifi gyda dau gynghorydd yn unig i wasanaethu'r ddwy ward. Nid oedd y Cyng. Graham Evans yn barod i dderbyn yr argymhelliad yma am fod, yn ei dyb, gofynion ward Teifi, er y nifer fechan o etholwyr, yn feisych. Mae cyfarfod pellach y "Task & Finish" yn cymryd lle ar 22 Mawrth.

Local Democracy and Boundary Commission for Wales: Review of the Electoral Arrangements of the County of Ceredigion – Draft Proposals Report.
Cllr Clive Davies stated that the latest county council recommendation preferred that Rhyd-y-fuwch and Teifi wards would be amalgamated and Mwldan ward to remain as present; this would entail Cardigan having two councillors only to serve the two wards. Cllr Graham Evans voiced his opposition to this arrangement stating that the work load of Teifi ward, although having less electors, was demanding. A further meeting of the Task & Finish group of the county council will take place on 22 March.

(b) **Plac i nodi llwyddiannau Jonathan Jones: Diweddariad gan y Cyng. Steffan Morgan. Cytunodd Mr Wells Jones ganiatáu i'r plac gael ei osod ar fur blaen Gwesty'r Grosvenor. Awgrymwyd gwahodd yr aelod seneddol Ben Lake i ddadorchuddio'r plac.**
Plaque to commemorate Jonathan Jones' success: Update by Cllr Steffan Morgan.
An agreement had taken place with Mr Wells Jones that the plaque could be placed on the front wall of the Grosvenor Hotel. Ben Lake MP would be invited to perform the unveiling ceremony.

(c) **Tref Aberteifi Ddi-plastig: Diweddariad gan y Cyng. Steffan Morgan.**
Dywedodd y Cyng. Morgan ei fod ef a'r Cynghorwyr Clive Davies a Richard Jones wedi mynychu'r cyfarfod yn y pwll nofio yn ddiweddar. Dywedodd bod gan y pwyllgor ar hyn o byd le i symud ymlaen gyda'i drefniant. Cynhelir cyfarfod eto cyn bo hir gan y Pwyllgor Llywio.
Plastic-free Cardigan: Update by Cllr Steffan Morgan.
Cllr Morgan stated that he and Councillors Clive Davies and Richard Jones had attended a recent meeting of the committee which is in its infancy; more structure is required in order to be efficient. A future meeting of the Steering Committee will be held shortly.

(d) **Canolfan Gofal Iechyd Aberteifi: Torri'r dywarchen gyntaf, 23/3/18, 11.00yb.**
Cardigan Integrated Care Centre: Cutting the first sod for the proposed development, 23/3/18, 11.00am.
The following members agreed to be present at the ceremony: Cllrs Richard Jones, Graham Evans, Siân Maehrlein, Catrin Miles and Steffan Morgan.

(e) **Cymdeithas Aberteifi Society: E-bost oddi wrth Mrs Kathleen Martin (cadeirydd) yn hysbysu'r cyngor y bydd y Gymdeithas yn arwain ar ddigwyddiadau Deucanmlwyddiant y Pasg 2019.**
Awgrymwyd bod y cyngor yn cefnogi Cymdeithas Aberteifi Society gyda'i harweiniad ar ddigwyddiadau Deucanmlwyddiant 2019.

Cymdeithas Aberteifi Society: E-mail from the Chair, Mrs Kathleen Martin, informing the council that the Society will lead on the Bicentenary Easter 2019 events.
It was recommended that the council supports the Society with its leadership of the Bicentenary events in 2019.

Gwahoddiadau i'r Maer / Invitations to the Mayor

Nos Sul, 25 Mawrth—Gwasanaeth Gŵyl Ddewi'r Tair Cymdeithas Cymraeg yng Nghapel Mair am 6.00yh.

Sunday, 25 March—The Welsh Societies' St David's Day Service at Capel Mair at 6.00pm.

Dydd Mercher, 18 Ebrill am 4.00yp—Y Maer i agor tymor newydd Clwb Bowls Aberteifi yn swyddogol.

Wednesday, 18 April at 4.00pm—The Mayor to officially open Cardigan Bowling Green for the coming season.

Dydd Sadwrn, 28 Ebrill—Sioe Dydd Sadwrn Barlys. Y Maer i gyflwyno gwobrau am 2.00yp.

Saturday, 28 April—Barley Saturday Show. The Mayor to present trophies at 2.00pm.

Er gwybodaeth / For information

Dydd Gwener, 23 Mawrth am 11.00yb—Torri'r dywarchen gyntaf ar dir Canolfan Gofal Integredig Aberteifi yn Rhodfa'r Felin. Bydd lluniaeth yn Ystafell Radley am 11.30yb.

Friday, 23 March at 11.00am—Cutting the first sod on the land of the Cardigan Integrated Care Centre at Rhodfa'r Felin. Refreshments will be served at 11.30am at Ystafell Radley.

Dydd Sadwrn, 31 Mawrth—Bore Coffi gan y Pwll Nofio yn Ystafell Radley.

Saturday, 31 March—Coffee Morning by the Swimming Pool at Ystafell Radley.

Dydd Sadwrn, 31 Mawrth ar Gae Chwarae Brenin Siôr 5ed: Gêm Pêl-droed Elusennol am 3.00yp.

Saturday, 31 March on the King George 5th Playing Field: Charity Football Match at 3.00pm.

Nos Fawrth, Ebrill 3 (*Cyfarfod Misol)*—Cyflwyniad gan Ms Rowan O'Neill ar brosiect i sefydlu canolfan ddiwylliannol ar sail casgliad Dic Jones yn hen lys y dref.

Tuesday, April 3 (*Monthly Meeting)*—Presentation by Ms Rowan O'Neill on the project to establish a cultural centre to house the Dic Jones memorabilia in the Old Courthouse, Cardigan.

Dydd Sadwrn, 14 Ebrill—Bore Coffi gan Bwyllgor Carnifal Aberteifi yn Ystafell Radley.

Saturday, 14 April—Coffee Morning by the Cardigan Carnival Committee at Ystafell Radley.

Nos Fawrth, Ebrill 17 (*Is-bwyllgorau*)—Cyflwyniad gan swyddog o Gynghorau Iechyd Cymuned Hywel Dda i drafod "Gwasanaethau i Drawsnewid Clinigau".

Tuesday, April 17 (*Sub-committees*)—Presentation by an officer of the Hywel Dda Community Health Council to discuss the Health Board's "Transforming Clinical Services" options.

Dydd Sadwrn, 28 Ebrill—Dydd Anzac, Senotaff, 11.00am. Y Maer i osod plethdorch.

Saturday, 28 April—Anzac Day, Cenotaph, 11.00am. Mayor to lay wreath.

Dydd Sadwrn, 28 Ebrill—Sioe Dydd Sadwrn Barlys ar gaeau Ysgol Uwchradd Aberteifi.

Saturday, 28 April—Barley Saturday Show, Ysgol Uwchradd Aberteifi fields.

Nos Iau, 3 Mai—Seremoni Sefydlu Maer Aberteifi 2018-19, yn Neuadd y Dref am 7.00yh.

Thursday, 3 May—Cardigan Town Mayor Installation Ceremony, at the Guildhall at 7.00pm.

Nos Fawrth, 15 Mai (*Is-bwyllgorau*)— Cyflwyniad gan Mr Jac Davies, rheolwr Castell Aberteifi.

Tuesday, 15 May (*Sub-committees*)— Presentation by Mr Jac Davies, manager Cardigan Castle.

Prynhawn Sul, 20 Mai—Gwasanaeth Dinesig y Maer yng Nghapel y Tabernacl am 2.00yp.

Sunday, 20 May—Mayor's Civic Service at Tabernacl Chapel at 2.00pm.

Bore Sadwrn, 9 Mehefin—Bore Coffi: Cronfa'r Maer yn Neuadd y Dref.

Saturday, 9 June—Coffee Morning: Mayor's Fund in the Guildhall.

Dydd Sadwrn, Awst 4—Sioe Amaethyddol Aberteifi ar Gaeau Briscwm.

Saturday, 4 August—Cardigan Agricultural Show on Briscwm Fields.

Dydd Sadwrn, Awst 11—Carnifal Aberteifi.

Saturday, 11 August—Cardigan Carnival.

Dydd Sadwrn, 18 Awst—Gŵyl Afon a Bwyd Aberteifi.

Saturday, 18 August—Cardigan River & Food Festival.